# Micro-gymwysterau: Y teclyn na chaiff ei ddefnyddio ddigon ar gyfer datblygu'r gweithlu

**Beth yw micro-gymwysterau?**

Mae micro-gymwysterau yn gymwysterau bach sy'n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ar draws ystod eang o feysydd pwnc a lefelau sgiliau. Maent yn cwmpasu popeth o wasanaeth cwsmeriaid a’r defnydd cywir o e-byst ar lefel mynediad i ddatblygu gwefannau ar lefel gradd.

Mae gan ficro-gymwysterau'r potensial i ddarparu uwchsgilio a DPP hanfodol i lawer o fusnesau. Mae hyn yn hanfodol ar adeg pan fo dwy ran o dair (67%) o fusnesau’n wynebu prinder sgiliau, yn ôl data 2025 gan Siambr Fasnach Prydain (BCC).

**Ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau**

Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth cyflogwyr o gyrsiau micro-gymwysterau yn gymharol isel. Yn 2022, cynhaliodd BCC arolwg ar raddfa eang o dros 1,000 o gyflogwyr i asesu lefel ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau, a’r awydd amdanynt. Nid oedd mwy nag 8 o bob 10 (83%) o fusnesau’n ymwybodol o ficro-gymwysterau. Er gwaethaf y diffyg gwybodaeth hwn, dywedodd chwarter (26%) eu bod yn 'debygol' o ddefnyddio micro-gymwysterau yn y flwyddyn nesaf. Dywedodd traean arall (29%) y byddent yn eu hystyried pe bai cyrsiau'n cael eu cymeradwyo gan gorff diwydiant. Mae hyn yn awgrymu, er bod ymwybyddiaeth yn isel, fod awydd cryf ymhlith cyflogwyr am hyfforddiant 'cryno' i uwchsgilio eu gweithwyr.

Yn fwy cyffredinol, mae tystiolaeth gref ei bod yn well gan gyflogwyr hyfforddiant modiwlaidd, byr i uwchsgilio ac ailsgilio staff yn gyflym ac yn hyblyg. Mewn arolwg yn 2024 o dros 1,000 o fusnesau, canfu BCC fod 37% yn bwriadu defnyddio cyrsiau byr, a oedd yn darparu ardystiad, i hyfforddi eu staff dros y flwyddyn nesaf. Roedd hyn o'i gymharu â dim ond 20% a oedd yn bwriadu defnyddio prentisiaethau lefel 2 neu 3.

Ar draws y DU, mae cyrff rheoleiddio yn buddsoddi mewn dulliau i annog datblygu a defnyddio micro-gymwysterau, er enghraifft:

- mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol yng Nghymru, yn ariannu QAA Cymru i weithio gyda cholegau a phrifysgolion yng Nghymru a'r gwledydd eraill i archwilio arfer a datblygiad micro-gymwysterau;
- mae Cyngor Cyllido’r Alban wrthi’n cynhyrchu fframwaith micro-gymwysterau ar gyfer yr Alban;
- mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn cyflwyno'r Hawl Dysgu Gydol Oes, a fydd yn darparu benthyciadau i unigolion i astudio amrywiaeth o gymwysterau ôl-16 gan gynnwys micro-gymwysterau addas.

Mewn arolygon diweddar a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) yng Nghymru, roedd ymwybyddiaeth cyflogwyr o ficro-gymwysterau wedi cynyddu i 44% (cynnydd o 24%). Mae ymwybyddiaeth ymhlith cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs) yn llawer gwell, gyda phob PSRB a ymatebodd yn nodi eu bod yn ymwybodol o ficro-gymwysterau; serch hynny, cyrhaeddwyd y rhai a ymatebodd i'r arolwg trwy gysylltiadau mewn prifysgolion, colegau a QAA, sy'n golygu bod y sampl eisoes yn ymwneud â'r system sgiliau.

**Rhwystrau i gyfranogiad**

Mae cost hyfforddiant yn chwarae rhan arwyddocaol ym mhenderfyniad busnes i fuddsoddi mewn DPP. Yn arolygon QAA Cymru, roedd 7 o bob 10 cyflogwr (69%) yn gosod gwerth wythnos enghreifftiol o hyfforddiant llawn-amser ar lai na £500. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd £500 yn talu costau rhai mathau o ddarpariaeth benodol.

Nododd un o bob pump o'r cyflogwyr a ymatebodd y byddent ond yn talu am ddatblygiad gweithwyr pe bai yna gymorthdal ar gael. Mae angen i ddarparwyr addysg drydyddol a busnesau fod yn agored ynglŷn â chostau datblygu a chyflwyno micro-gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i gyflogwyr o bob maint.

**Cyfranogwch**

Yn rhy aml, mae datgysylltiad rhwng y sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau a'r cymwysterau a gynigir gan ddarparwyr lleol. Mae micro-gymwysterau yn cynnig datrysiad pwerus, gan alluogi cyflogwyr, colegau a phrifysgolion i gyd-ddylunio hyfforddiant o ansawdd uchel ac wedi'i dargedu, sy'n diwallu anghenion y gweithlu.

Yn Lloegr, mae Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol (LSIPs) eisoes yn gwneud i hyn ddigwydd. Dan arweiniad Siambrau Masnach mewn 32 allan o 38 ardal, mae LSIPs yn dod â chyflogwyr a darparwyr ynghyd i lunio darpariaeth hyfforddiant leol o amgylch anghenion sgiliau go iawn. Mae'r model hwn yn profi'n hynod effeithiol. Yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf yn unig, cyfranogodd mwy na 65,000 o fusnesau, gyda llawer ohonynt yn ymwneud â'r system sgiliau am y tro cyntaf erioed.

**A ellid mabwysiadu'r dull hwn ledled y DU?**

Os ydych chi'n gyflogwr, nawr yw'r amser i weithredu. Cysylltwch â'ch darparwyr hyfforddiant lleol ac archwiliwch yr opsiynau o ran y micro-gymwysterau sydd ar gael i uwchsgilio'ch staff ar gyfer heriau'r dyfodol.

Paratowyd yr erthygl hon i gynorthwyo â gwaith y gweithgor trydyddol a ariennir gan Medr ar ficro-gymwysterau, a elwir yn Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG). Mae gwybodaeth am waith y grŵp ynghyd ag ystod eang o adnoddau, gan gynnwys astudiaethau achos a gweminarau, ar gael ar wefan QAA Cymru.

**Ann Cotterill**

Rheolwr Ansawdd

QAA Cymru

**Hannah Larson**

Swyddog Polisi

British Chambers of Commerce